# Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

## Tŷ Hywel, Cardiff

## 15 Mai 2019

## Cofnodion y Cyfarfod

## Yn bresennol:

Jane Hutt AC – Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Uzo Iwobi – Cynghorydd Polisi Arbenigol ar Gydraddoldebau
Ruth Marks – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
Judith Stone – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
Anna Nicholl – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WVVA)
Chris Johnes – Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
Kay Denyer – Race Council Cymru
Elin Maher – Mentrau Iaith
Gethin Rhys – Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
Jamie Burt – Siawns Teg
Gareth Coles – Celfyddydau Gwirfoddol Cymru
Derek Walker – Canolfan Cydweithredol Cymru
Victoria Lloyd – Age Alliance Cymru
Carl Cooper – CVC Cymru
Sean O'Neill – Plant yng Nghymru
Louise Hughes - Age Cymru
Rocio Cifuentes - Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)

## Swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol

Alyson Francis – Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymunedau
Chris Buchan – Pennaeth y Tîm Cymunedau a'r Trydydd Sector
Hywel Owen – Arweinydd Tîm Polisi'r Cyfryngau
Bill MacDonald – Pennaeth Polisi Cyllid a Threfniadau Pontio Ewropeaidd
Andrew Charles – Pennaeth Dyfodol
Aaron Fortt – Tîm y Trydydd Sector

## Eitem 1 ar yr Agenda – Croeso a Chyflwyniadau.

Agorodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y cyfarfod drwy groesawu pawb a gwahodd y rhai a oedd yn bresennol i gyflwyno eu hunain. Eglurodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ei bod yn teimlo bod gan Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector statws sefydledig a'i bod yn edrych ymlaen at gydweithio â'r grŵp er mwyn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector gyflawni ein huchelgeisiau cyffredin drwy gydweithio.

## Eitem 2 ar yr Agenda – Trafodaeth ar bapur "Ffyniant i Bawb" Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (dan arweiniad Ruth Marks).

**Adnoddau Cynaliadwy:**

Pwyntiau allweddol a godwyd:

Nododd yr aelodau fod cydberthynas Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol â'r sector yn amrywio (o ran cyllid a materion ehangach).

Mae angen defnyddio'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu y tu hwnt i Lywodraeth Cymru a'r trefniadau a neilltuwyd.

Nodwyd bod Cynllun y Trydydd Sector yn gweithio'n effeithiol fel fframwaith ar gyfer y gydberthynas rhwng y sector a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yn sgil pwysau cyni, mae'r gydberthynas a'r cydweithio rhwng llywodraeth leol a'r sector yn heriol, ac yn effeithio ar gynaliadwyedd grwpiau lleol sy'n darparu gwasanaethau cymunedol. A ellir efelychu Cynllun y Trydydd Sector ar lefel leol ac a oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i hwyluso hyn?

Nodwyd bod model y Gronfa Gofal Integredig, a gaiff ei gydlynu'n genedlaethol gan y llywodraeth ac sydd â lefel ofynnol o fuddsoddi mewn sefydliadau gwerth cymdeithasol ar lefel leol, yn ffordd o hyrwyddo a monitro'r gweithgarwch a'r buddsoddiad yn y Trydydd Sector y gellid eu harchwilio/mabwysiadu'n ehangach ar draws y llywodraeth. Cafodd pwysigrwydd amseru a dyrannu cyllid ei bwysleisio oherwydd teimlwyd bod angen neilltuo digon o amser i alluogi'r sector i gymryd rhan lawn mewn trafodaethau a'r holl bartneriaid i gyd-gynhyrchu a chydweithio yn unol â'r ffyrdd a ragwelir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Trafodwyd y cyfle sylweddol y mae Asedau Segur y DU yn ei gyflwyno a chynigiwyd y dylid cynnwys y sector wrth ystyried sut y caiff yr adnoddau hyn eu defnyddio.

Awgrymwyd y dylid gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WGLA) i fod yn rhan o'r Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth.

Roedd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (DMCW) yn falch o ail-lansio/adolygu'r Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth a chytunwyd i wahodd WGLA a byrddau iechyd.

**Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt:**

- Gwahodd WGLA a Byrddau Iechyd i fod yn rhan o'r is-bwyllgor cyllid a chydymffurfiaeth. Tîm y Gymuned a Thrydydd Sector Llywodraeth Cymru i gymryd camau gweithredu.
- Caiff papur "Ffyniant i Bawb" a chofnodion cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector eu rhannu â Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
- Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn gofyn am i'r problemau yn ymwneud â'r gydberthynas rhwng y trydydd sector a llywodraeth leol gael eu trafod yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol, cyn cyfarfod posibl â Julie Hanes AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
- Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn trafod â Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, a yw model y Gronfa Gofal Integredig ac enghreifftiau eraill o drefniadau ariannu effeithiol yn bethau y gallai Llywodraeth Cymru ystyried eu defnyddio'n ehangach mewn perthynas ag ariannu'r Trydydd Sector.
- Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn hyrwyddo'r Cod Ymarfer â chyrff cyhoeddus.
- Bydd Hywel Owen yn cydlynu'r cyswllt â'r sector er mwyn sicrhau y caiff ei gynnwys yn y broses o benderfynu sut y caiff Asedau Segur eu defnyddio yng Nghymru yn y dyfodol.

**Brexit:**

Pwyntiau allweddol a godwyd:

Tynnwyd sylw at effaith Brexit ar ymfudwyr yr UE a'r ansicrwydd y maent yn ei wynebu.

Cyflwynwyd sylwadau ar ddigwyddiad fforwm cymdeithas sifil y DU ar Brexit yn Belfast a fynychwyd gan Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit ac a gydlynwyd gan Fforwm Cymdeithas Sifil Brexit Cymru dan arweiniad WCVA a Phrifysgol Caerdydd. Codwyd dau brif bwynt gan yr aelodau:

1. Dulliau diogelu hawliau dynol -– nid oes awydd yn y DU am y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y cenhedloedd datganoledig, ac mae pryder cynyddol am golli offerynnau, ond caiff gwaith y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn y maes hwn ei groesawu'n fawr.
2. Trefniadau Ariannu ar ôl Brexit – rhaid i ni gofio mai ein cymunedau mwyaf difreintiedig a fydd yn teimlo effaith y golled fwyaf.

Nodwyd bod y Trydydd Sector am gefnogi Llywodraeth Cymru i ddelio ag effaith Brexit, ond mae angen cymorth i annog Gweinidogion eraill i gymryd rhan e.e. mewn meysydd megis yr Economi Sylfaenol lle mae'r sector yn awyddus i barhau i fod yn rhan o'r ymdrech i greu economi fwy cynhwysol i Gymru.

Nodwyd bod WCVA yn cynnal prosiect Cronfa Bontio'r UE er mwyn asesu effaith Brexit ar wasanaethau cymunedol. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Mehefin.

Cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i rannu'r adroddiad â Gweinidogion eraill, a dywedodd fod angen sicrhau y caiff y trydydd sector ei ystyried yn well ym Mhwyllgor y Cabinet ar Drefniadau Pontio'r UE, gan nodi'r posibilrwydd o gyflwyno papur iddo ynghylch y sector.

Mae'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn awyddus i sicrhau bod cynlluniau grant Llywodraeth Cymru mor agored a thryloyw â phosibl. Mae angen i ni sicrhau bod grwpiau a sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), yn ymwybodol o'r cyfleoedd y mae cynlluniau megis y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn eu cynnig.

Hefyd, trafododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip y broses o roi'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ar waith yng Nghymru a phosibilrwydd deddfwriaeth Hawliau Dynol yng Nghymru.

Nododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip gyfranogiad Grŵp Buddsoddi Rhanbarthol Allanol y trydydd sector a gofynnodd i Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ystyried sut y gallwn weithio'n well â chyd-weithwyr yn llywodraeth y DU.

Rhoddodd Bill MacDonald ddiweddariad ar Gronfa Bontio'r UE a nododd fod ei dîm yn awyddus i gydweithio â'r sector ar ddatblygiadau yn y dyfodol.

**Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt:**

- Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn rhannu adroddiad WCVA ar Gronfa Bontio'r UE â Gweinidogion eraill er mwyn sicrha y caiff y trydydd sector ei ystyried yn well ym Mhwyllgor y Cabinet ar Drefniadau Pontio'r UE.
- Bydd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn adrodd yn ôl ar y trafodaethau i Lee Walters AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, a Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth.

**Cyfranogiad a Chyd-gynhyrchu:**

Pwyntiau allweddol a godwyd:

Mae'r Trydydd Sector yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i phum Ffordd o Weithio a gofynnodd a allai'r trydydd sector gefnogi a chyfrannu'n fwy at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Ddeddf ar waith yn fewnol. Awgrymwyd y dylid creu fforwm o randdeiliaid allanol i gefnogi dull y llywodraeth o roi'r Ddeddf ar waith.

Nododd Andrew Charles fod trafodaethau parhaus yn mynd rhagddynt ynglŷn â chynnwys rhanddeiliaid allanol yn fwy yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Ddeddf ar waith, gan fod hyn yn awgrym penodol a wnaed yng Ngweithdy'r Trydydd Sector yn ddiweddar.

Nododd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip fod angen cymorth y Trydydd Sector ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hyn yn llwyddo – mae gan y sector lawer o arbenigedd, yn enwedig mewn perthynas â chyd-gynhyrchu a chyd-ddylunio, a chroesawodd yr awgrym i greu fforwm sy'n sicrhau mewnbwn cymdeithas sifil.

Hefyd, anogodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip aelodau o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i sicrhau eu bod nhw, yn ogystal â'u rhwydweithiau, wedi ymuno â'r Rhwydwaith Llywodraeth Agored - Cymru.

**Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt:**

- Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i archwilio'r trefniadau ar gyfer fforwm rhanddeiliaid er mwyn cefnogi Llywodraeth Cymru i roi'r Ddeddf ar waith.
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (drwy Ruth Marks) i fynd i swyddfa Comisiynydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i roi diweddariad ar y drafodaeth.
- Yr Ysgrifenyddiaeth i rannu Ymrwymiadau Llywodraeth Agored Llywodraeth Cymru â'r sector unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi.

**Eitem 3 ar yr Agenda** – Y papur i nodi "Pwysigrwydd Creadigrwydd" (dan arweiniad Gareth Coles).

**Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt:**

- Bydd y Ddirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn rhannu'r papur â Dafydd Elis-Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

**Eitem 4 ar yr Agenda** – Absenoldeb Arbennig ar gyfer Dioddefwr Camdriniaeth Ddomestig

**Camau Gweithredu y Cytunwyd Arnynt:**

- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector i godi ymwybyddiaeth o fewn eu rhwydweithiau a chyrff eraill ac annog cydweithwyr i fwrw golwg dros y canllawiau a ddarparwyd gan sefydliadau megis Cymorth i Ferched Cymru ynglŷn â rhoi polisïau ar waith yn y gweithle.